Ar Drywydd y Gwneuthurwyr Haearn 6

# Llwybr Joseph Bailey









Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent


## Taith 6 Llwybr Joseph Bailey

Taith hawdd, 3 milltir – 5 cilomedr, 1.5 awr

**Man cychwyn - Maes Parcio Neuadd y Farchnad, Brynmawr (SO 190 116).**



*Office Row*




1791, ffurfiodd Thomas Hill (perchenog Gwaith Haearn Blaenafon) bartneriaeth gyda Harford, Partridge & Co. i adeiladu gwaith haearn yn Nant-y-glo. Yn 1794 roedd dwy ffwrnais bron wedi'u cwblhau pan chwalodd y bartneriaeth a gadawyd Harford a'r lleill i gwblhau'r gwaith ar eu pennau eu hunain.




*Tocyn Tryc Nantyglo*

Yn 1811, gwerthodd Thomas Hill y gwaith i Joseph Bailey a Matthew Wayne. Yn 1820 gadawodd Matthew Wayne a llenwyd ei le gan Crawshay Bailey. Erbyn 1823, roedd pum ffwrnais yn cynhyrchu bron i 18,000 tunnell o haearn y flwyddyn. Yn 1833, prynodd Crawshay Bailey Waith Haearn Cendl a chreu tramffordd i gysylltu'r ddau. Erbyn 1842, roedd ganddo 3,900 o weithwyr.



*Gwaith Haearn Nantyglo*

**O'r maes parcio y tu cefn i Neuadd y Farchnad trowch i mewn i Alma Street** - llwybr Rheilffordd Clydach a adeiladwyd yn 1793 i gysylltu Gwaith Haearn Cendl gyda'r gamlas yng Ngilwern. Mae Lower Bailey Street yn dilyn cwrs Tramffordd Llangatwg Bailey a adeiladwyd yn 1829 i gludo calchfaen o Chwareli Llangatwg i'r gwaith haearn. Roedd y dramffordd yn rhedeg yn syth trwy'r maes parcio. Ar hyd y fan hyn yr oedd injan Crawshay Bailey - y "Cymro" - yn rhedeg. Mae'r injan yn cael ei choffau gerllaw yn y "Cymro Inn".

**Ewch yn ôl i'r maes parcio a gadael i lawr y ffordd gul i mewn i Sgwâr y Farchnad.** Yn y sgwâr roedd tramffordd 1829 yn rhannu'n ddwy. Mae'r gangen chwith yn rhedeg bron ar onglau sgwâr i lawr Station Road tuag at 'Limestone Road' a'r gwaith haearn.

**Dilynwch y gangen arall yn syth ar draws y sgwâr, croeswch y B4248 a throi i'r chwith i Warwick Road.** Ar y dde mae Parc y Welfare sydd nawr yn sefyll ar safle Pwll Heathcock, un o byllau cyflenwi Nant-y-glo.

**Cymerwch y llwybr cerdded tarmac i'r chwith. Cerddwch yr holl ffordd ar hyd y llwybr cerdded.** Ar y dde mae argae'r "Machine Pond" - un arall o'r pyllau oedd yn cyflenwi Gwaith Haearn Nant-y-glo. **Ewch at rwystr beiciau a ffordd. Trowch i'r chwith i fynd ar y ffordd (Waunheulog) a'i dilyn at y gyffordd nesaf. Ewch ymlaen ar hyd Waun Ebbw Road am 600m pellach.** Ar y dde fe welwch rai bysedd o rwbel o hen lefel wedi ei dorri i ochr y bryn i gyflenwi mwyn haearn neu lo i'r gwaith haearn.

**Ewch ymlaen ar hyd Waun Ebbw Road at un o Dyrrau Crwn Nant-y-glo.** Adeiladwyd y rhain rywbryd rhwng 1816 ac 1822 i amddiffyn y teulu Bailey oddi wrth eu gweithwyr gwrthryfelgar.

**Nodwch os gwelwch yn dda bod Fferm y Tai Crwn yn eiddo preifat a dim ond o'r maes parcio neu'r llwybr ceffylau cyhoeddus y ceir ei weld – ni chaniateir mynediad.**


Mae gan y tŵr ddrws haearn solet gyda dau dwll mwsged y



*Tai Crwn*

gellir eu cau o'r tu fewn gyda fflapiau sy'n troi ar echel fechan. Mae waliau'r tŵr yn bedair troedfedd o drwch gyda ffenestri wedi eu gwneud o haearn bwrw, fel y mae llawer o'r nodweddion a fyddent fel arfer wedi eu hadeiladu o bren. Mae gweddill y beudai a storfeydd yn dyddio i 1795. Roeddent yn storio offer ar gyfer y gwaith ac yn stablau ar gyfer ceffylau'r tramiau.

**Parhewch ar hyd y llwybr.** Yma fe welwch sylfaeni Tŷ Mawr. Adeiladodd y teulu Bailey'r plasty ysblennydd yn 1816. Roedd wedi ei amgylchynu gan erddi mawr gyda rhodfeydd o goed a nant mynydd yn rhedeg trwyddynt.



*Fferm y Tai Crwn*

**Dychwelwch ar hyd Woodland Terrace. Ar y gyffordd, trowch i'r chwith ger Laburnum Lodge a cherdded yn ôl ar hyd Waun Ebbw Road. Ar gornel Roundhouse Close, trowch i'r dde a mynd i lawr i gyfeiriad y cwm. Ewch ymlaen at y bont dros yr A467.** Yma, gallwch gymharu'r paentiad hwn o tua 1829 gyda'r olygfa fodern.

Ar ochr chwith gorwedd 'Office Row' a'r siop tryc a adeiladwyd yn gynnar yn y 1790au. Y tu ôl i'r siop tryc mae pedair ffwrnais a adeiladwyd yn y 1820au. Ar lan dde'r afon mae'r tai injan dal oedd yn cynhyrchu chwyth ar gyfer y ffwrneisi.



*Gwaith Haearn Nantyglo, 1829*

**Croeswch y bont a throi'n sydyn i lawr allt i'r dde i ddilyn Market Road.** Mae'r byngalos yn sefyll ar safle 'Office Row' gyda'r Siop Tryc ychydig fetrau ymhellach. Roedd Office Row yn dai i'r gweithwyr yn y 1790au. Roedd ganddynt dy uchaf dau lawr a thŷ is o un llawr.

**Y siop tryc.** Roedd hwn yn cael ei redeg gan y cwmni a châi gweithwyr Bailey eu talu gyda thocynnau na ellid eu gwario ond yn y Siop Tryc. Roedd y nwyddau a werthid yn aml yn ddrud ac o ansawdd gwael. Gwneid pethau'n waeth gan y ffaith bod y gweithwyr yn cael eu cadw mewn dyled barhaus.

**Mae'r bont droed ar y dde ar draws yr A467 yn arwain at safle'r ffwrneisi chwyth cyntaf.** Edrychwch ar y chwith i weld 'baich ffwrnais' – cymysgedd o haearn, golosg heb ei losgi, bric a sorod oedd yn casglu ar waelod y ffwrnais.

**Trowch yn eich unfan ac fe welwch adeilad gwyn.** Roedd hwn yn un o'r tai cast lle'r oedd haearn tawdd o'r ffwrneisi'n rhedeg i fowldiau i wneud ingotau o haearn bwrw oedd yn cael eu galw'n "foch" neu "porchelli".

**Dychwelwch i fyny'r ffordd gan basio'r byngalos a throwch i'r dde ar y gyffordd i fyny at Ffordd Blaenau. Trowch yn syth i'r chwith i ddilyn y brif ffordd am 75m at y groesfan. Croeswch yma, troi i'r chwith ac yna'n syth i'r dde ar hyd y llwybr cerdded i mewn i Limestone Road. Trowch i'r chwith ac yna cerdded tua'r gogledd ar hyd Limestone Road.** Limestone Road yw terfyn Tramffordd Llangatwg 1829 oedd yn cludo calchfaen o Chwareli Llangatwg i gyflenwi'r ffwrneisi chwyth.

**Trowch i'r chwith i mewn i Limestone Road a dilyn y ffordd am 450m nes i chi ymuno gyda'r A467. Byddai'r Tramffordd wedi parhau yn syth i'r gogledd yma ond bydd yn rhaid i chi droi i'r chwith ac i lawr i'r brif ffordd ac yna troi yn syth yn ôl at Neuadd y Farchnad.**



*Bwylerdy Semtex*

Ar hyd y ffordd byddwch yn mynd heibio i fwylerdy Ffatri Semtex. Cynlluniwyd y ffatri yn 1946-51 gan Syr Ove Arup (1895 – 1988) ac roedd yn enwog am adeiladu plisgyn concrit chwyldroadol.

Er mwyn gadael inni wybod a fuoch chi'n mwynhau'r daith neu am ragor o fanylion cysyllter â ni ar 01495 355937 / 07968 472812
alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk